OPERATION GROG.

Cael Gwared â Graffiti

Cydweithrediad rhwng CRIMESTOPPERS a Phartneriaeth Gwarchod Cymuned Sir Ddinbych.

Fe fyddai'r rhai rhamantus yn ein plith yn hoffi i ni gredu fod graffiti yn gelfyddyd. Ond y realiti yw fod y rhan fwyaf o graffiti yn sgribl anllythrennog, fel rheol yn bersonol sarhaus i eraill neu'n dylunio cartwns oedd hyd at yn ddiweddar wedi ei cyfyngu i waliau toiledau cyhoeddus annymunol.

Mae'r rhai sy'n gyfrifol yn euog o drosedd. Mae difrod troseddol yn costio miloedd o bunnau i'r gymuned leol i'w ddileu bob mis. Os na ellir dileu'r graffiti mewn da bryd fe all achosi ofn troseddau, beth bynnag fo'r neges, mae'n 'dweud' fod troseddwyr yn gweithredu yn yr ardal.

Os na ellir ei rwystro, bydd y bwrn ariannol, ac ofn troseddau yn parhau i godi.

Eleni, mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Prawf, STARS (Wardeniaid) Gogledd Cymru, a Chyngor Sir Ddinbych, mae Partneriaeth Diogelwch Cymuned Sir Ddinbych wedi bod yn cydweithredu i daclo graffiti'n effeithiol drwy:

Gyflogi Warden Amgylcheddol i lanhau graffiti gan ddefnyddio llafur y rhai hynny sydd ar Orchymyn Cosb Gymunedol.

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi cyflogi gwasanaeth artist i weithio gyda phobl ifanc i gynhyrchu murluniau mewn ardaloedd lle mae graffiti'n frith. Mae'r murluniau, yn ogystal â bod yn llachar ac yn ddeniadol, hefyd yn 'brysur' ac felly nid yw graffiti gaiff ei roi arnyn nhw yn hawdd i'w adnabod, ac felly nid yw'r ehangder mawr o waliau anneniadol bellach yn 'graffiti gyfeillgar'

Mae'r rhai sy'n gyfrifol yn 'arwyddo' eu 'celfyddydwaith' gyda 'thag'. Mae coladu'r darluniau hynny wedi datgelu fod rhai unigolion yn gyfrifol am werth miloedd lawer o bunnau o ddifrod troseddol. Mae hyn yn waethygiad o ymddygiad anghymdeithasol i droseddu difrifol.

Bydd Ymgyrch GROG yn

? Cyhoeddi drwy'r cyfryngau ffotograffau o 'dagiau' y troseddwyr mwyaf dyfal, a gwahodd y rhai sy'n gallu adnabod y dihirod i'w riportio yn anhysbys i CRIMESTOPPERS ac efallai ennill gwobr ariannol

? Pwrcasu prawf mewn man gwerthu siopau sy'n darparu paent aerosol a chael polisi erlyniad cryf

? Parhau i ddileu graffiti diolwg a blaenoriaethu dileu'r rhai sy'n hiliol sarhaus neu'n drallodus yn fuan.

Helpwch ni i nodi

SOPE - CONOR - DYLAN - STACEY - AYDY (ANDY) - OVERRATED - MH-AESO – KORZ – SIK / SIZE / WI – BA-

SOPE

Conor

DYLAN

STACEY

Aydy or ANdy

v

OVERRATED

MH

ASEO

KORZ

SIK or and or SIZE or and Wi

BA